

## Allwch chi ein helpu ni i ail-ddychmygu?

Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn eich gwahodd chi fel artistiaid, penseiri, a phobl sy'n hoffi adeiladau a lleoedd i gyfrannu at ein cyhoeddiad newydd, gyda lluniau sy'n ail-ddychmygu, yn ailddyfeisio neu'n ail-ddehongli bywydau a straeon rhai o adeiladau harddaf ac anghofiedig Cymru.

Dylai'r cyflwyniadau gynnwys crynodeb o hyd at 400 o eiriau, ynghyd â dau fraslun enghreifftiol i'n helpu ni i ddeall eich techneg lluniadu. Bydd rhestr fer yn cael ei llunio o'r cyflwyniadau a gofynnir i'r cyfranwyr dethol dynnu lluniau hyfryd i'w cynnwys yn y cyhoeddiad.

### Cefndir:

Rydyn ni'n dod ar draws strwythurau ac adeiladau bob dydd sydd â chyswllt annatod â phwy ydyn ni; i ble a sut rydyn ni'n byw. Mae llawer ohonyn nhw'n ffurfiau syml sydd ddim yn mwynhau sylw'r cyhoedd neu'r cyfryngau.

Rydyn ni'n dathlu ein symbolau cenedlaethol yn dda iawn, ond mae gennym ni drysorau o'n cwmpas sydd ddim yn cael eu dathlu na'u caru. Serch hynny, adeiladwyd yr adeiladau, y strwythurau a'r adfeilion ag angerdd a sgîl ac maen nhw'n aml yn brydferth iawn. Maen nhw'n haeddu cael eu cydnabod, eu dathlu a'u hail-ddychmygu.

Bydd llawer ohonyn nhw dan fygythiad, naill ai'n uniongyrchol o ganlyniad i ailddatblygiad, neu'n anuniongyrchol oherwydd diffyg gofal, arian, neu ddiddordeb, ac efallai fod rhai mor guddiedig nes ein bod ni wedi eu hanghofio neu heb ddod yn ymwybodol o'u bodolaeth. Mae'n fwyaf tebygol eu bod yn cael eu gadael – a bod eu defnydd gwreiddiol bellach yn cael ei ystyried yn ddiangen. Ac eto, byddai eu colli yn drychineb. Maen nhw'n dal i fod yn ffigurau allweddol yn ein tirwedd.

Rydyn ni i gyd yn gwybod ac yn dysgu am bwysigrwydd ein hasedau treftadaeth enwog, ein hatyniadau i dwristiaid, ein trefi hyfryd a'n pentrefi hardd. Ond, mae ein gwlad fach yn llawn, yn aml o dan ganopi o eiddew ac anwybodaeth, o adeiladau a strwythurau hardd sydd wedi'u gwreiddio yn eu lleoliadau.

Roedd yr adeiladau a'r strwythurau hyn yn aml yn rhan o'r gorffennol a'n lluniodd, nid dim ond ar ffurf caeru a systemau amddiffyn mawreddog, ond hefyd drwy gael eu llunio â llaw a'u creu i wasanaethu angen, masnach neu fasnach fyd-eang mewn sawl achos.

Nawr yw'r amser i dynnu sylw at y pethau hynny sydd wedi bod yn asgwrn cefn i'n lleoedd – i ailymweld â nhw a'u hailddarganfod. Ein nod yw eich ysbrydoli i'n helpu i ddatgelu harddwch, arwyddocâd ac 'olion' yr adeiladau a'r strwythurau hyn.

### Eich dewis a'ch cyflwyniad:

Rydyn ni'n annog cyflwyniadau electronig ar ffurf dwysgetsh heb fod yn fwy na A4 ar i fyny neu ar draws sy'n canolbwyntio ar yr adeiladau a'r strwythurau o'ch dewis, ynghyd â chrynodeb 400 gair. Gallwch chi ddewis unrhyw leoliad yng Nghymru o unrhyw gyfnod – hynafol neu fodern – ond byddan nhw i gyd yn anhygoel mewn rhyw ffordd ac yn hynod o hardd.

Rydyn ni'n gofyn i chi geisio datgelu pŵer eu 'holion' drwy wneud darluniau, gan ddefnyddio'r rhyddid sydd i'w gael o dynnu llun â llaw, lle gall fod rhywfaint o ddirgelwch a lle gall pwysau llinell neu ddyfnder graddliwio ddangos o harddwch, lle ac amser.

Fe gewch chi ddefnyddio unrhyw ddeunyddiau neu dechneg – pensil, inc, siarcol, pastel, creon, dyfrlliwiau – mewn unrhyw gyfuniad neu ffurf unigol cyn belled â bod eich cyflwyniad wedi cael ei dynnu â llaw. Does dim modd cyflwyno lluniadau wedi'u creu gan gyfrifiadur.

Dylai eich crynodeb o ddim mwy na 400 gair fynd gyda'ch braslun. Dylai ddisgrifio eich dull i destun a fydd yn mynd gyda'r lluniau terfynol. Gallwch chi ysgrifennu ar eich pen eich hun neu ddewis gweithio gyda chydweithiwr, awdur neu fardd ar yr amod eich bod chi yn gallu cyfleu eich agwedd at strwythur yn y testun ac adlewyrchu ymateb emosiynol, creadigol – nid disgrifiad llythrennol.

Nid oes rhaid i chi fod yn byw neu'n gweithio yng Nghymru i gyflwyno, ond rhaid i destun/gwrthrych eich cais fod wedi'i leoli yng Nghymru – boed yn y gogledd neu'r de, yn arfordirol neu'n ddiwydiannol, yn heneb neu ddirgel, yn wledig neu'n drefol, yn rhai y gellir eu hadnabod ar unwaith neu heb eu darganfod i raddau helaeth.

### Sut i gyflwyno:

Dylid cyflwyno dwysgetsh mewn jpeg cydraniad uchel, a chrynodeb 400 gair, yn electronig, i [connect.dcfw.org](http://connect.dcfw.org)

### Dyddiad cau:

5pm ddydd Llun, 22 Mawrth 2021

### Beth fydd yn digwydd nesaf?

Nod y Comisiwn Dylunio yw dathlu'r canlyniadau mewn cyhoeddiad o luniau hardd dethol ynghyd â thestun cryno ond atgofus. Rydwn ni'n rhagweld y bydd detholiad o hyd at 12 cyflwyniad yn cael eu cynnwys yn y cyhoeddiad gan y Comisiwn Dylunio.

DIWEDD